Cyngor Ysgolion Sul

**Cyngor Ysgolion Sul**
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 6SH
**Ffôn** 01766 819120 **Ebost** aled@ysgolsul.com

CYHOEDDIADAU'R GAIR

# Adroddiad Cryno

## o weithgaredd

## Cyngor Ysgolion Sul

## a

## Cyhoeddiadau'r Gair

## 2024



# CYFLWYNIAD

**Pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw, sy'n crynhoi prif weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Cyhoeddiadau'r Gair yn ystod 2024.**

Bu hon yn flwyddyn lle cafwyd cyfle i annog a chefnogi ail-sefydlu neu sefydlu gwaith newydd mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Diolch am bob gwahoddiad a ddaw i law - gan eglwysi, cyrddau chwarter, diwrnodau gweinidogion, heb son am gyfarfodydd rhithiol. Daeth cyfle i drefnu ambell noson adnoddau o gwmpas y wlad, cyfle i ymweld â Sasiwn y De a'r Gogledd, 2 ddiwrnod i weinidogion yr Annibynwyr, cynhadledd ar genhadaeth Gymraeg o dan nawdd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd a diwrnod i glerigwyr Esgobaeth Bangor.

# STRATEGAETH DDIGIDOL

Yn 2019 bu i ni greu cynllun strategaeth 5 mlynedd ar gyfer 2019-2024, gyda'r pwyslais ar gynyddu ein **gwaith digidol / gwefannau**, tra yn lleihau ein gwaith argraffu print. Dros gyfnod o 5 mlynedd mae gennym bellach 5 gwefan sy'n llawn gwybodaeth ac adnoddau ymarferol, heb son am sianelau ar Facebook, TikTok, X ac Instagram. Crewyd **sianel deledu Gristnogol** ar YouTube yn ogystal, gan grynhoi ynghyd y miloedd o eitemau Cristnogol Cymraeg sydd i'w gweld ar y we.












# YMESTYN ALLAN YN GENHADOL

Tra bod ffocws y 5 mlynedd ola wedi bod ar ddatblygu ein presenoldeb ar y we, a mwy o adnoddau 'digidol', bydd ffocws y ddwy flynedd nesaf - 2025/6 - yn canolbwyntio ar **ymestyn allan yn genhadol gan feddwl am waith ysgolion yn benodol**, drwy ddatblygu adnoddau Cristnogol ar gyfer cefnogi gwaith ysgolion ac hefyd helpu eglwysi i ymestyn allan at eu hysgolion lleol yn y gymuned.

Rydym wedi derbyn gwaddol arian elusen Mudiad Addysg Grefyddol Cymru, a bydd hwn yn cael ei wario dros y 2 flynedd nesaf i wireddu rhai o'r amcanion uchod. Y prif adnodd fydd cynhyrchu 2 lyfr lliw safonol gwreiddiol yn y Gymraeg, un yn canolbwyntio ar hanes datblygiad y ffydd Gristnogol yng Nghymru, a'r llall yn darlunio hanes y Seintiau Celtaidd. Gobeithiwn hefyd i'w cyfieithu i'r Saesneg. Byddwn hefyd yn ceisio helpu eglwysi gyda chanllawiau ar sut i greu cysylltiadau gyda'i hysgolion lleol.








# ADNODDAU NEWYDD

Erbyn hyn mae adnoddau Cymraeg addas ar gael ar gyfer bob achlysur bron - ar gyfer cynnal Ysgolion Sul **(o leiaf 8 cyfres amrywiol o werslyfrau)**, clybiau plant ac ieuenctid, Llan Llanast, Chwarae a Chredu, deunydd addoli **Roots** ac adnoddau ar gyfer ymweld ag ysgolion dyddiol. Yr her bellach yw annog ac ysbrydoli pobl yn lleol i fynd ati o ddifri, gan gydweithio o fewn ardaloedd - ac yn gydenwadol lle mae hynny'n ymarferol. Bydd yn braf cael cydweithio gydag enwadau a mudiadau Cristnogol eraill i wireddu hynny, mewn cyfnod lle mae cyfartaledd oed ein cynulleidfaoedd eglwysig yn codi.









# LLYFRAU NEWYDD

Rhai o'r llyfrau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2024 oedd:

**Llyfr sticeri storïau Beiblaidd** - llyfr lliwgar fformat mawr A3, gyda sticeri y mae modd eu hail ddefnyddio dro ar ôl tro. Cyhoeddwyd Ionawr 2024, pris £7.99.

**Llyfr sŵn anifeiliaid y Beibl** - llyfr bwrdd lliwgar gyda 50 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol. Cyhoeddwyd Ionawr 2024, pris £12.99.

**Llyfr llechen Beiblaidd** - llyfr yn cynnwys 40 stori Feiblaidd, sy'n cynnwys sgrin ddigidol LCD a stylus, lle mae modd tynnu lluniau ar y sgrin ddigidol o fewn y llyfr. Cyhoeddwyd Ionawr 2024, pris £12.99.

**Llyfr lliwio Beibl Bach Stori Duw** - llyfr lliwio yn cynnwys 60 o luniau o'r Beibl poblogaidd hwn. Cyhoeddwyd Mai 2024, pris £7.99.

**Gweddïo drwy'r Salmau** - cyfrol o 150 o weddïau gwreiddiol gan Euros Jones Evans yn seiliedig ar y Salmau. Cyhoeddwyd mis Mai 2024, pris £14.99.

**Byw'r Weddi** - cyfrol gan Trystan Owain Hughes yn trafod Gweddi'r Arglwydd. Cyhoeddwyd mis Awst 2024, pris £7.99.

**Sut i Weddïo** - addasiad Meirion Morris o lyfr Pete Greig ar arweiniad i weddi . Cyhoeddwyd mis Mehefin 2024, pris £14.99.

**Gair yn ei bryd** - cyfrol o erthyglau gan Noel Davies. Cyhoeddwyd mis Mehefin 2024, pris £5.99.

**Ambell gam drwy'r flwyddyn** - cyfrol o bregethau ac emynau gan Noel Davies. Cyhoeddwyd mis Mehefin 2024, pris £8.99.



**Gair Duw ar lafar gwlad** - cyfrol o waith Dewi Arwel Hughes, wedi ei olygu gan E Wyn James yn olrhain tarddiad llawer o'n hymadroddion Cymraeg. Cyhoeddwyd mis Awst 2024, pris £8.99.

**Ganwyd Iesu** - llyfr swn y Nadolig - llyfr popyp lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n gwneud synau gwahanol. Cyhoeddwyd mis Hydref 2024, pris £11.99.

**Llyfr canu carioci Carolau'r Nadolig** - llyfr bwrdd lliwgar gyda 6 botwm electronig sy'n canu 6 carol gwahanol. Cyhoeddwyd mis Hydref 2024, pris £11.99.

**Cyfres jigso's y Gair** - 3 jigso newydd: Geni Iesu / Porthi'r Pum Mil / Arch Noa - 3 jigso lliwgar 50 darn mewn bocs. Cyhoeddwyd mis Hydref 2024, pris £7.99 yr un.

**Eglwys y Bobl 3** - cyfrol o fyfyrdodau/anerchiadau Beiblaidd yn dilyn blwyddyn B y Llithiadur. Cyhoeddwyd mis Tachwedd 2024, pris £12.99.

**Dehongli Bywyd a Gwaith Ruth a Llyfr y Pregethwr** - y bedwaredd yn y gyfres o esboniadau Hen Destament gan Gareth Lloyd Jones. Cyhoeddwyd mis Ebrill 2024, pris £8.99.

**Llythyr gobaith - Llythyr cariad:** cyfrol ar hunan les a gofal yn seiliedig ar hanes rhai o gymeriadau'r Beibl gan Glyn Wise. Cyhoeddwyd mis Mawrth 2024, pris £5.99.


















# CYNLLUNIO I'R DYFODOL

Treuliwyd amser hefyd yn datblygu llyfrau newydd ar gyfer 2025. Mae hyn yn cynnwys:

**Gweddïo sy'n bywhau** - addasiad Meirion Morris o Reviving Prayer gan Owen Cottom mewn cydweithrediad ag elusen 100 i Gymru. I'w gyhoeddi mis Mawrth 2025, pris £8.99. Byddwn hefyd yn cyhoeddi 2 gyfrol Saesneg ar yr un achlysur.

**Hoff Adnodau'r Cymry** - 60 o Gymry adnabyddus yn rhannu am eu hoff adrannau yn y Beibl gan Beti Wyn James. I'w gyhoeddi mis Mawrth 2025, pris £9.99.

**Beibl mewn 10** - project ar y cyd efo Pwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd, a fydd yn cyflwyno 66 pennod yn rhoi arweiniad 10 munud i bob llyfr yn y Beibl, mewn print, fel podlediad ac fel ffilmiau mp4. Addasiad Cymraeg gan Huw Tegid. I'w gyhoeddi mis Medi 2025, pris £12.99.

**Merched rhyfeddol y Beibl** - addasiad o Extraordinary Women of the Bible gan SPCK - cyfrol liwgar i blant. I'w gyhoeddi mis Medi 2025, pris £7.99.

**Dal i ganu a chanmol** - cyfrol yn olrhain hanes Cymanfaoedd Canu a chyfweliadau gyda nifer o arweinyddion. Trystan Lewis sy'n golygu'r gyfrol hon. I'w gyhoeddi mis Awst 2025, pris £8.99.

**Hoff Emynau'r Cymry 2** - y tro yma Delyth Morgans Phillips fydd yn holi 60 o bobl sy'n defnyddio emynau yn eu bywydau bob dydd pa un yw ei hoff emyn nhw. I'w gyhoeddi mis Hydref 2025, pris £9.99.

**Fy Ngweinidogaeth** - cyfrol yn cynnwys tua 20 portread o bobl sy'n cyflawni gweinidogaethau gwahanol ac amrywiol gan Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys. I'w gyhoeddi mis Medi 2025, pris £9.99.

**Carolau'r Cymry** - myfyrdodau ar garolau gan E Wyn James. I'w gyhoeddi mis Tachwedd 2025, pris £8.99.

**Y Goeden Jesse** - llyfr lliwgar gweithgaredd a chrefft i blant yn cynnwys taith 25 diwrnod drwy gyfnod yr adfent. I'w gyhoeddi mis Hydref 2025, pris £4.99.

**Coeden y Pasg** - llyfr lliwgar gweithgaredd a chrefft i blant yn cynnwys taith 40 diwrnod trwy gyfnod y grawys. I'w gyhoeddi mis Hydref 2025, pris £4.99.

**Llwybr Cadfan** - Cyfrol bererindod farddonol yn dilyn Llwybr Cadfan gan Sion Aled a Sian Northey. I'w gyhoeddi mis Mai 2025, pris £8.99.

**Arglwydd, dysg i mi weddïo** - cyfrol o ysgrifau sy'n astudiaethau yn trafod gweddi. I'w gyhoeddi mis Mai 2025, pris £6.99.


**Dyma gyfarfod hyfryd iawn** - cyfrol o 50 gwasanaeth gan Watcyn James yn dilyn trefn y flwyddyn eglwysig. I'w gyhoeddi mis Gorffennaf 2025, pris £11.99.


**Dyrys Daith** - cyfrol ar newid hinsawdd gan Huw John Hughes. I'w gyhoeddi mis Mai 2025, pris £6.99. Noddir gan Cyfundeb Môn.


**Cenhadaeth y Cymry** - cyfrol ar genhadon Cymreig gan D Ben Rees. I'w gyhoeddi mis Mai 2025, pris £6.99.

**Beibl Lliw newydd i blant 7-11 oed** - Mae Beibl lliw newydd gan Tom Wright ar y gweill. Bydd hon yn gyfrol goffa er cof am Elisabeth James, gan ddefnyddio'r cyllid a ddaeth i law. Project ar y cyd efo Ebeneser Caerdydd fydd hwn, gyda Ifan Roberts yn gweinyddu.

**Hunangofiant** - cyfrolau gan Aled Edwards a Hywel Meredydd.










# GWEFANNAU

Mae gwaith ar ein 5 gwefan yn parhau. Dyma grynodeb o'r prif ddatblygiadau newydd:

**Gwaith ar wefan ysgolsul.com**
*Adrannau newydd:*
- Cyfres stori Duw - 50 gwers ysgol Sul ar y we, gyda deunydd marchnata a hyrwyddo.
- Blynyddoedd cynnar - deunydd meithrin.
- Powerpoint Beiblaidd - 60 stori newydd.
- Ffilmiau Beiblaidd - 30 newydd.
- Llyfrau gwersi Y Gwir Ffordd - 20 newydd.
- Gweddïo gyda phlant a chardiau gweddi.
- Cyswllt ysgolion.
- Plant mewn galar.
- Y cwrs Gweddi.
- Cwrs archwilio ffydd - Cwestiwn.


**Gwaith ar wefan cristnogaeth.cymru:**
*Adrannau newydd:*
- Iechyd a hunan les.
- Cefnogaeth Dementia.
- Newid Hinsawdd.
- Gweddi.
- Grantiau a nawdd ariannol.
- Ffydd a chwaraeon.
- Ffydd a chefn gwlad.
- Gwaith ysgolion.

**Gwaith ar wefan gair.cymru:**
- Ychwanegu tua 500 o ffeiliau o adnoddau i'w lawrlwytho.

**Gwaith ar wefan gobaith.cymru:**
- 32 cân Gristnogol gyfoes wedi eu hawdurdodi a'u hychwanegu i'r wefan.

**Gwaith ar Teledu Cristnogol Cymru:**
- Sianeli newydd gan gynnwys podlediadau Y Cwmni Bach, deunydd astudiaeth Cwestiwn a caneuon cyfoes yn Gymraeg.



















# HYRWYDDO







Bu i **Dechrau Canu** wneud rhaglen arbennig i roi sylw i'n cyfrol Codi'r Llen, tra bu eitem ar Llan Llanast ar **Newyddion S4C** a cyhoeddwyd erthyglau yn **Cenn@d a'r Tyst, Cristion** ac ar ein 5 tudalen ar **Facebook**, ac ambell sgwrs radio i dynnu sylw at fentrau newydd.

Rydym hefyd yn parhau i rannu'n gyson ar **ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol**.

Cyhoeddwyd ein **bwletin blynyddol CYSylltiad** hefyd ym mis Hydref, fel cylchgrawn lliwgar 16 tudalen, ynghyd â nifer o erthyglau yn **Cenn@d, Y Tyst a Cristion.**

Ymhlith y **digwyddiadau** y bu i ni bresenoli ein hunain y mae:



**Undeb y Bedyddwyr** ym Mhenfro - cyfle i osod stondin a lansio cyfrol Sut i Weddïo.

**Undeb yr Annibynwyr** ym Mhontypridd - cyfle i osod stondin a lansio 2 gyfrol newydd gan Noel Davies.

**Y Gymanfa Gyffredinol** yn Aberystwyth - cyfle i osod stondin adnoddau.



**Y Sioe Fawr** yn Llanelwedd - cyfle i gynnal stondin adnoddau dros yr wythnos.

**Eisteddfod Genedlaethol** ym Mhontypridd ac **Eisteddfod yr Urdd** ym Meifod - cyfle i redeg stondin adnoddau am yr 8 diwrnod - ar y maes, gydag arddangosfa yn yr Eglwys. Cafwyd cyfle i lansio Byw'r Weddi gan Trystan Owain Hughes, Gair Duw ar Lafar Gwlad gan Dewi Arwel Hughes a cyfres o 5 llyfr Nadolig newydd i blant.



Mynychwyd gyfarfod preswyl o **Rhwydwaith Eciwmenaidd yr Eglwys yng Nghymru** yn Llanbed.

Cafwyd cyfle i gynnal **noson adnoddau gwaith plant** yn Aberaeron i Henaduriaeth Ceredigion a gogledd Penfro.



Cafwyd gwahoddiad i arddangos a dweud gair mewn **Cynhadledd 'Flame Childrens Ministry'** gyda'r Eglwys yng Nghymru yn Abertawe.

Cafwyd gwahoddiad i gynnal **sesiwn ar arwain addoliad** gyda'n hadnoddau print a digidol yn Llandysul i Gyfundeb Ceredigion.

Cafwyd **cyfarfod i drafod gwaith ysgol Sul newydd** Craigblaenau a chyflenwi adnoddau.

# PARTNERIAETHAU EHANGACH

Fel rhan o waith **CMN (rhwydwaith gwaith plant CTBI)** bu i ni gwblhau gwaith ar 2 gwrs hyfforddiant, sef **Essential Children's Ministry** ac E**ssential Family Ministry**. Cwrs 10 modiwl yr un a fydd yn ymddangos ar blatfform digidol **TheologyX** o dan nawdd Cliff College. Yn y gorffennol aed ati i gyfieithu 'Caleidosgob' a 'Dal d'afal', ond gan bod hwn yn gwrs ar lein yn unig, gyda chostau datblygu sylweddol - tua £70,000 - ni fydd yn bosib cael fersiwn Cymraeg - ond gan bod y cwrs yn cael ei ddysgu dros y we byddai modd cael grwp tiwtor Cymraeg ar ei gyfer.



Yn ystod y flwyddyn bu i ni gymryd rhan mewn 3 cynhadledd trafod dyfodol gwaith plant - un yn Llundain yn trafod hyfforddiant gweithwyr, a'r llall yn trafod camdrin ysbrydol ac un cynhadledd ar lefel Ewropeaidd **(ECCE) yn Genefa**.



Yn ystod 2024 cyflwynwyd **10 Medal Gee**, ac fe'u cyflwynwyd mewn 7 lleoliad gwahanol. Braf oedd gweld capeli llawn ar gyfer anrhydeddu selogion lleol.



Mae ein gwaith o gynnal **deunydd addoli Roots** yn parhau, ac ar hyn o bryd mae cryn newidiadau yn yr arfaeth, gan gynnwys gwefan newydd sbon a dylunwaith hollol newydd i gynnwys y cylchgrawn print. Bydd y wefan newydd yn cynnwys adnodd 'Drag and Drop session planner', lle mae modd clicio ar elfennau gwahanol i greu trefn gwasanaeth ar ffurf pdf. Lansiwyd y cylchgronnau newydd ar gyfer mis Medi. Mae nifer y tanysgrifwyr yn cadw'n gyson ac adborth cwsmeriaid yn werthfawrogol iawn o'r adnoddau. Bydd y gweddïau Cymraeg wythnosol, ynghyd â dewisiadau emynau a 2 daflen waith wythnosol i blant yn parhau yn y Gymraeg.




Mae rhwydweithio a rhannu syniadau yn holl bwysig ym maes gwaith plant. Yn aml byddwn yn troi i gyfeiriad Lloegr am ysbrydoliaeth - SU England and Wales, Cymdeithas y Beibl Cymru a Lloegr, SPCK a Lion ayyb. Ym mis Tachwedd cefais gyfle i **ymweld â 4 elusen a 2 ganolfan adnoddau Gristnogol yn yr Alban, sef Scripture Union Scotland, Bible Society Scotland**, CVE schools Scotland a swyddfa gwaith plant Eglwys yr Alban, er mwyn ceisio deall eu perspectif o weithio mewn gwlad tu allan i Loegr.




Cafwyd cyfle i fynychu **Ffair Lyfrau Ryngwladol Llundain**, a braf oedd gweld y bwrlwm o fewn y diwydiant. Cafwyd sawl cyfarfod adeiladol gyda nifer o gyhoeddwyr yno.



## MATERION GWEINYDDOL

Bu i'r **Pwllgor Gwaith** gyfarfod ym mis Mawrth, Mehefin a Hydref, a cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol hefyd ym mis Mehefin, a hynny eto i gyd ar Zoom. Diolch am gefnogaeth y swyddogion ac ymddiriedolwyr at y gwaith, ac i'r enwadau am y nawdd. Diolch hefyd am y cydweithio hapus rhyngom fel tîm - Rhys Llwyd am ei ddylunio a chynnal y gwefannau ac i Delyth am ofalu am Roots a gwefan Gobaith.

Mewn dyddiau heriol, diolchwn am bob arwydd gobeithiol a welir ledled Cymru. **Diolch am bob arweinydd a gwirfoddolwr sy'n ymdrechu i gynnal gweithgarwch i blant a'u teuluoedd.** Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn bwysleisio unwaith eto ein hawydd fel Cyngor i gefnogi sefydlu mentrau newydd (neu ail-danio gwaith sy'n dioddef), a'n parodrwydd i gyfarfod er mwyn trafod opsiynau a'r hyn sy'n ymarferol a phosib o fewn ein cymunedau lleol.

Diolch am gefnogaeth swyddogion ac aelodau'r Cyngor hefyd i'r gwaith - yn ariannol ac yn ymarferol.

Daeth tymor Cadeiryddiaeth **Jennie Hurd** i ben ddiwedd y flwyddyn, a croesawyd **Mererid Mair** i'r Gadair ym mis Ionawr. Trist yw cofnodi i **Idris Hughes**, ein cyn-drysorydd, farw yn ystod yr haf wedi cyfnod o anhwylder. Coffa da amdano a diolch am ei dymor gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cael cyfle i groesawu **Kathryn Morris** atom fel trysorydd newydd, a diolchwn am yr arbenigedd sydd ganddi ym maes cyllid.







Yn dilyn marwolaeth **Elisabeth James** yn 2023, sef ein Llywydd Anrhydeddus, bu i'r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol benodi Llywydd Anrhydeddus i'w holynu, sef **Rheinallt Thomas**, ac yntau hefyd wedi gwneud cyfraniad anfesuradwy i waith y Cyngor dros flynyddoedd lawer. Pasiwyd hefyd i gyhoeddi Beibl Coffa Lliw i blant er cof am Elisabeth James, gan ddefnyddio'r rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani er mwyn noddi'r gwaith.

**Gan ddiolch am bob cydweithrediad ac ymddiriedaeth, Aled Davies, Cyfarwyddwr**

